

**Cyfarfod agored yw hwn:
mae croeso i aelodau'r cyhoedd arsylwi yn yr oriel gyhoeddus**

Panel Perfformiad Craffu Ysgolion

Crynodeb: Dyma becyn agenda ar gyfer Panel Perfformiad Craffu Ysgolion a gynhelir ar 29.09.2016. Mae'r brif eitem sy'n cael ei thrafod yn ymwneud â pherfformiad ysgolion yn Abertawe.

Dyddiad: 29.09.2016

Amser: 4.00pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgor 6, Neuadd Y Ddinas, Abertawe

Aelodau'r Panel:

Fiona Gordon

Mike Day

Beverley Hopkins

Hazel Morris

Sue Jones

Paul Meara

Anthony Colburn

Cyril Anderson

Dave Anderson-Thomas (Rhiant-lywodraethwyr

Cyfetholedig)

Copi o'r Agendâu at:

Helen Morgan-Rees – Pennaeth Gwella Ysgolion yr Hwb

Nick Williams - Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr

Lindsay Harvey – Prif Swyddog Addysg

AGENDA

Rhif	Eitem
1.	Llythyrau'r Cynullydd yn deillio o gyfarfod y Panel ar 01.09.2016
2. 4.00pm	Trafod offer/dulliau ymyrryd (archwilio rhaglenni ymyrryd i weld pa mor effeithiol ydynt, siarad ag Ysgol Gynradd Sgeti fel enghraifft) <i>Peter Evans, Pennaeth Ysgol Gynradd Sgeti</i>
3. 5.00pm	Cynllun Busnes Ein Rhanbarth ar Waith (ERW) Betsan O'Connor (Rheolwr-gyfarwyddwr ERW) http://www.erw.cymru/media/139902/business-plan-2016-2019cymraeg.pdf
4.	Amserlen Rhaglen Waith 2016/17
5.	Er gwybodaeth a) Deilliannau Arolygiadau Ysgol Unigol Estyn b) Erthyglau ac ystadegau diweddar neu waith darllen cefndir

***Sylwer y dylai aelodau ddatgan buddiannau personol a rhagfarnol a chwipio pleidiau yn y modd arferol

Cyswllt: Michelle Roberts, Swyddog Craffu

Ffôn: 01792 637256 E-bost: michelle.roberts@abertawe.gov.uk

Cysylltu gwaith y Panel Perfformiad Craffu Ysgolion â Blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor

Mae'r eitemau ar yr agenda heddiw'n dod dan y blaenoriaethau corfforaethol canlynol ar gyfer Abertawe, yn unol â'r manylion yn y Cynllun Corfforaethol Cyflwyno ar gyfer Abertawe 2015-17.

Blaenoriaeth Un: Diogelu Pobl Ddiamddiffyn

Mae Cyngor Abertawe'n ymrwymedig i sicrhau bod ei ddinasyddion yn rhydd rhag niwed ac ecsbloetio, gan gynnwys cam-drin yn y cartref, ecsbloetio plant, masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern. Rydym am i bobl allu byw mor annibynnol ag y bo modd, ac yn eu cartrefi eu hunain. Rydym hefyd am i blant aros gyda'u teuluoedd neu gael eu cefnogi mewn lleoliadau teuluol, lle mae'n ddiogel iddynt wneud hynny.

Blaenoriaeth Dau: Gwella Cyrhaeddiad Disgyblion

Rydym am i bob plentyn a pherson ifanc yn Abertawe ddysgu'r sgiliau ac ennill y cymwysterau angenrheidiol i lwyddo mewn bywyd. Ar hyn o bryd, mae gormod o blant a phobl ifanc yn colli'r ysgol yn rheolaidd ac, o ganlyniad, nid ydynt yn dysgu'r sgiliau ac yn ennill y cymwysterau y mae eu hangen arnynt i fynd ymlaen i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Mae angen i ni sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc yn mynd i'r ysgol yn rheolaidd fel eu bod yn cael cyfle gwell i wella'u sgiliau a'u cymwysterau. Mae deilliannau addysgol yn Abertawe wedi dangos gwelliannau da yn y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar wella deilliannau i bob plentyn a pherson ifanc. Bydd codi dyheadau a gwaith effeithiol yn sicrhau na fydd tlodi ac anfantais yn atal gwelliant a chyfleoedd.

Blaenoriaeth Tri: Trechu Tlodi

Ein gweledigaeth yw y bydd dinasyddion Abertawe'n llawn dyheadau ac y bydd ganddynt yr hyder a'r adnoddau i wireddu eu dyheadau. Rydym am i bawb, lle bynnag y mae'n byw, fyw mewn lle ffyniannus a chefnogol, lle mae'n teimlo'n falch o berthyn i'r gymuned. Rydym am i bobl gael dyheadau ar gyfer eu cymunedau a'u teuluoedd sy'n rhoi her a boddhad iddynt ac sy'n eu hysbrydoli. Rydym am i gymunedau gael uchelgeisiau, lle mae pobl ifanc yn ymdrechu am ddyfodol gwell a chael yr help a'r gefnogaeth y mae eu hangen arnynt i'w wireddu. Rydym am ddarparu modelau rôl cryf i blant ac oedolion sy'n eu helpu i ddysgu a chael profiad o opsiynau newydd nad oeddent erioed wedi'u dychmygu o'r blaen.